Cofnodion cyfarfod Zoom y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd nos Fercher, 17 Rhagfyr 2025, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**<u>PRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr K. R. Jones, B. Mellor, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

<u>Hefyd yn bresennol</u>

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs R. A. Wheatley – Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol

**24. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. Connolly, J. Kenney a Mrs D. L. King.

**25. <u>DATGAN BUDDIANNAU</u>**

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.*

**26. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| i. | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Pencadlys Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Ffordd yr Arfordir, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3PL<br><br>**<u>WARD:</u>** Plastirion |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs J. M. Evans<br>K. R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0519/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Gosod dau strwythur amgau pwmp gwres o'r aer yn cynnwys chwe uned pwmp gwres o'r aer a ffensio acwstig.<br><br>**YMGEISYDD:** Tim Christensen<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Dim gwrthwynebiad* |
| ii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 65 Ffordd Las, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2EE<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs D. L. King<br>Ms R. S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0420/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd safle i fod yn gyfleuster storio, yn cynnwys dymchwel yr adeilad sy'n bodoli eisoes a gosod cynwysyddion storio ar y safle (defnydd Dosbarth B8)<br><br>**YMGEISYDD:** Pie in the Sky Ventures<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| iii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Y Depo, Gerddi Botanegol, Ffordd Grange, Y Rhyl, Sir Ddinbych<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** A. J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0507/PF<br><br>**DISGRIFIAD:** Dymchwel adeiladau storio a chynwysyddion storio. Adeiladu sied storio ac uned cywasgu aer o dan do; arwyneb, ffensio a goleuadau newydd a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Michael Bennion<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| iv | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Sand Beach, 25 - 26 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3AL<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: J. Kenney<br>Ms J. McAlpine |

| | |
|---|---|
| | **<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2025/0486/PF<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid defnydd ac addasiadau i glwb nos blaenorol i lunio pedwar fflat hunangynhwysol<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Imran Khan<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |
| v | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Ty'n Rhyl, 167 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2PH<br><br>**<u>WARD:</u>** Pendyffryn<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: A. J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2025/0540/LBC<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Adeiladu ystafell ddiddordebau yn yr ardd i'w defnyddio gan y defnyddwyr preswyl preifat (cais Adeilad Rhestredig)<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mrs Elvira Barratt<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>**: Dim gwrthwynebiad* |

**27. <u>YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO</u>**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio i ailddatblygu'r Ganolfan Dechnoleg Moduron i ffurfio adeilad Cerbydau Modur ac Adeiladwaith newydd yng Ngholeg Llandrillo y Rhyl, Ffordd Cefndy, Y Rhyl (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), i'r aelodau ei ystyried.

***<u>PENDERFYNWYD</u>** derbyn manylion yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio.*

**28. <u>DIWEDD Y CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………………......